

Polisi'r Gymraeg



# Polisi'r Gymraeg

A large, white, stylized graphic element on the right side of the page, resembling a pipe or duct with several 90-degree turns.

Diweddarwyd: Gorffennaf  
2015

## **WALES & WEST UTILITIES POLISI'R GYMRAEG**

**Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn annog y sector preifat i gynnig gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg, ble y bo'n bosibl, er na osodir unrhyw fandad cyfreithiol.**

Rydym wedi mabwysiadu'n wirfoddol yr egwyddorion a ganlyn i hyrwyddo ac i gefnogi'r Gymraeg:

### **Cyfathrebu**

Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw gyfathrebiad a dderbynnir yn Gymraeg. Gall pobl a mudiadau sy'n ysgrifennu atom neu sy'n anfon e-byst atom yn Gymraeg ddisgwyl inni ymateb iddynt yn Gymraeg yn ein cyfathrebiad cychwynnol, oni bai y gofynnir inni wneud yn wahanol.

Byddwn yn rhoi fersiynau Cymraeg yn unig o ohebiaeth a llythyrau ar gael ar gais.

### **Tafleuni gwybodaeth a deunyddiau hyrwyddo**

Lle mae deunyddiau wedi'u hanelu'n uniongyrchol at gwsmeriaid - er enghraifft, hysbysu o flaen llaw am waith, cau ffyrdd, a gwaith ar strydoedd - byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg, cyn belled â phosibl, pan ofynnir amdanynt.

### **Cysylltu ar y ffôn**

I bobl sy'n dymuno siarad â ni yn Gymraeg, bydd cydweithwyr Cymraeg eu hiaith ar gael, ble bynnag y bo'n ymarferol.

### **Gwefan y Cwmni**

Mae gan ein gwefan [www.wwutilities.co.uk](http://www.wwutilities.co.uk) fersiwn Gymraeg, lle ceir mwyafrif y cynnwys yn Gymraeg. Caiff y cynnwys, yn y



Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd, ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.

### **Cefnogaeth fewnol i ddwyieithrwydd**

Ein Partneriaid Busnes yn Adnoddau Dynol yw'r prif fan cyswllt i gydweithwyr sydd eisiau trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn eu hamgylchedd gwaith. Bydd unrhyw awgrymiadau gan gydweithwyr ynglŷn â rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cael eu trafod gan y Bwrdd Gweithredol, fel sy'n briodol.

